Status: *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 2378 (Cy.251)

ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau'r Cynllun Iechyd Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - -	*28 Medi 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*28 Medi 2011*
Yn dod i rym - -	*19 Hydref 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys, yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 56(1) o Ddeddf Cyllid 1973(**1**) ac a freinir bellach ynddynt hwy.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Cynllun Iechyd Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2011. Maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 19 Hydref 2011.

Ffioedd mewn perthynas â'r cynllun iechyd dofednod

2.—(1) Y ffi am gymeradwyaeth at ddibenion y cynllun iechyd dofednod a sefydlwyd o dan baragraff 4 o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**2**) yw £60 am gymeradwyaeth ddechreuol, ynghyd â ffi flynyddol o—

(a) £62 ar gyfer haid neu ddeorfa; neu

(b) £70 ar gyfer cyfuniad o haid a deorfa ar un safle.

(2) Os cyflawnir yr arolygiad blynyddol o dan y paragraff hwnnw gan swyddog Gweinidogion Cymru, y ffi am bob arolygiad (yn ychwanegol at y ffi flynyddol) yw—

(a) £97 ar gyfer haid neu ddeorfa; neu

(b) £143 ar gyfer cyfuniad o haid a deorfa ar un safle.

(3) Y ffi am gymeradwyo, o dan y paragraff hwnnw, labordy sy'n cynnal profion diagnostig ar gyfer aelodau o'r cynllun iechyd dofednod yw—

(a) £13 am brosesu cais am gymeradwyaeth; a

(b) £31 am brosesu dogfennaeth gofrestru flynyddol.

(**1**) 1973 p.51. Caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer hwn yn rhinwedd adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**2**) O.S. 2011/2379 (Cy.252).